Brig y Goeden

# Boris y Bochdew

PIPPA GOODHART



# Boris y Bochdew

PIPPA GOODHART

Lluniau gan Caroline Holden



DRAKE

# Pennod 1



Roedd Owain a Gwenan yn aros efo Taid a Nain am ychydig ddyddiau. Roedd bochdew Owain wedi dod hefyd. Rhoddodd Owain gawell y bochdew ar y bwrdd yn y gegin.

"Be ydi enw dy fochdew di 'ngwas i?" gofynnodd Nain.

"Boris," atebodd Owain. "Galwais o'n Boris  am mai math Rwsiaidd o fochdew bychan ydi o. Mae'n llenwi ei fochau gyda bwyd ac yn ei gario o gwmpas, felly mae'n cael picnic ble bynnag mae'n digwydd bod."

Doedd Boris fawr mwy na phelen fechan o wlân cotwm.



Rhoddodd Taid ei sbectol ar ei drwyn a chraffodd ar gawell Boris ar draws y gegin.

"Pam rwyt ti eisio creadur llygotlyd yn anifail anwes?" gofynnodd.



"Am ei fod o'n glên," meddai Owain.

Edrychodd Boris i fyny ar Owain â'i lygaid cyrens duon disglair.



“Dydi o ddim yn hoffi’r cawell bychan yma,” meddai Owain. “Gartre bydd Mam yn gadael iddo redeg yn rhydd yn yr ystafell weithiau. Ga i adael iddo ddod allan os gwylia i o? Wna i ddim gadael iddo ddianc.”

Agorodd Nain ei cheg i ateb, ond cafodd Taid y blaen arni.

“Syniad gwallgo! Wrth gwrs na chei di ddim ei adael yn rhydd.”

“Pam?” gofynnodd Owain.



"Oherwydd," meddai Taid gan siglo'i fys, "oherwydd os gollyngwch chi'r peth yna fe ddychrynwch chi Nain druan am ei bywyd. Dydach chi ddim eisiau gwneud hynny, nac ydach?"

"Nac ydw," meddai Owain.

"Ydach *chi* ofn unrhyw anifail, Taid?" gofynnodd Gwenan. "Pan oeddwn i'n fach aethon ni i'r sw a dychrynodd y teigrod fi dipyn. Roedden nhw mor fawr. Edrychodd un ohonyn nhw arna i a llyfu'i weflau."



“Ofn teigrod, ie?” chwarddodd Taid. “Pan oeddwn i’n ddyn tân ifanc roedd rhaid imi ddal teigr unwaith.”

“Wir?” gofynnodd Gwenan.

“Ie, wir,” atebodd Taid. “Wrth gwrs, yn aml roedd rhaid achub cathod fel Cochyn pan oedden nhw’n methu dod i lawr o goed. Ond y tro hwnnw teigr oedd y gath mewn coeden.”


“Wir?” gofynnodd Gwenan.

"Rhoddais lond dysgl o bysgod drewllyd wrth fôn y goeden a gwnaeth hynny i'r teigr ddringo i lawr. Wedyn roedd yn rhaid imi roi rhaff am wddw'r teigr!"

"Wir?" gofynnodd Gwenan.

"Wir," meddai Nain, "ond dim ond wedi i'r milfeddyg roi pigiad i'r teigr er mwyn iddo gysgu."

"O!" meddai Gwenan. "Ond dwi'n dal i feddwl eich bod chi'n ddewr, Taid."





Cydiai dyrnau bach pinc Boris ym mariau ei gawell. Roedd yn atgoffa Owain o rywbeth roedd o wedi'i weld ar y teledu ... ynghylch pobl wedi eu cloi mewn carchar heb iddyn nhw wneud dim byd o'i le.

"Mae cawell Boris fel carchar," meddai.

"Wel chaiff o ddim rhedeg yn rhydd yn y tŷ yma," meddai Taid ac i ffwrdd ag o i'r ardd.

Trodd Owain at Gwenan.


"Does dim angen inni adael Boris allan," meddai. "Medrwn ni wneud y cawell yn fwy ac yn fwy diddorol."

"Sut?" holodd Gwenan.

"Gwnawn ni ddarn ychwanegol i'w gawell. Rhyw fath o faes chwarae antur i fochdew."



# Pennod 2




Cafodd Gwenan hyd i focsys a rholiau papur toiled, a chardfwrdd a thâp gludiog. Gwnaeth Owain gynllun ar gyfer y maes chwarae antur.

"Bydd yn troi a throsi i fyny ac i lawr a rownd," meddai. "Defnyddia'r bocs clir yna, Gwenan. Wedyn medrwn ni wylio Boris."

"Paid â bosio!" meddai Gwenan.

Roedd yno un tiwb cardfwrdd hir.

"Caiff hwnna fod yn sglefr," meddai Gwenan.



Llanwodd Owain dwbyn marjarîn â phys sych a'i roi wrth waelod y sglefr.

"Pwll peli bochdew," meddai.

Glynon nhw fwy a mwy o ddarnau gyda'i gilydd. Cyn bo hir roedd y maes chwarae ddwywaith maint cawell Boris.



"Da ydi o, yntê?" meddai Owain. "Hoffwn i petawn i'n gallu bod yn fychan, fach i mi gael mynd i mewn efo Boris."

Roedd cinio bron yn barod ac yna daeth Taid i mewn o'r ardd.

"Be sy yna i ginio?" gofynnodd.

"Bysedd pysgod," meddai Nain.

"Dowch i weld maes chwarae antur Boris, Taid," meddai Owain.



"Maes chwarae antur, ie?" meddai Taid. "Unwaith roedd yn rhaid imi achub pysgodyn mewn ffair bleser."

"Wir?" meddai Gwenan.

"Ie," meddai Taid. "Roedd y pysgodyn wedi mynd yn sownd yn yr olwyn fawr. Daeth ei fysedd  i ffwrdd. Rhoddodd eich nain nhw yn y rhewgell a rŵan rydan ni'n mynd i'w cael nhw i ginio."



"O, Taid!" chwarddodd Gwenan. "Dydw i ddim yn coelio hynna!"

"Ond gwnes i achub pysgodyn unwaith," meddai Taid. "Roedd tŷ ar dân. Llwyddon ni i gael y fam a'r tad a dwy o enethod bach allan. Ond roedd un o'r genethod yn crio am ei physgodyn aur. Es i'n ôl drwy'r mwg a'r fflamau i'w nôl yntau hefyd. Dydi o ddim yn hawdd cario powlen pysgodyn aur i lawr ysgol."

"Dyna ddewr oeddech chi'n mynd yn ôl," meddai Gwenan. "Oeddech chi'n ofnus?"



"O, oeddwn siŵr iawn," meddai Taid. "Dydi bod yn ddewr ddim yn golygu nad ydach chi'n ofnus. Mae bod yn ddewr yn golygu gwneud rhywbeth er bod rhywun yn ofnus."

"O!" meddai Gwenan.




Roedd gan Owain broblem. "Sut medra i agor drws Boris wedi imi roi'r maes chwarae yn sownd wrth y cawell? Taid, os gwelwch chi'n dda, wnewch chi helpu?"

"Gwn i," meddai Nain. "Beth ddylech chi ei wneud ydi clymu darn o linyn wrth ddrws y cawell. Yna tynnwch o drwy dwll bychan yn y cardfwrdd. Rŵan medrwch chi agor y drws heb i Boris ddianc."

"Gwych!" meddai Owain. "Sut meddylioch chi am hynna?"





"O, roeddwn i'n debyg i ti pan oeddwn i'r oed yna," meddai Nain. "Roeddwn innau'n gwneud pethau i'n hanifeiliaid ni hefyd."


"Pa fath o anifeiliaid oedd gynnoch chi?" gofynnodd Owain. Ond chafodd o ddim ateb gan Nain.

"Gad i Boris fynd i'w faes chwarae rŵan," meddai hi. "Wedyn cewch chi'ch dau fynd i olchi'ch dwylo."


Hola i hi ynghylch ei hanifeilaid anwes wedyn, meddyliodd Owain.

Gwthiodd Owain linyn y drws drwy dwll yn y cardfwrdd. Yna rhoddodd y maes chwarae yn sownd wrth gawell Boris.

"Iawn," meddai Owain. "Ffwrdd â ni. Pump, pedwar, tri, dau, un!"



Rhoddodd blwc ar y llinyn ac agorodd y drws. Tynnodd Boris ei hun i fyny a drosodd i'r maes chwarae. Daeth sŵn crafu wth iddo sgrialu llithro i lawr y sglefr gyntaf ac i mewn i'r pwll peli.





“Edrych!” meddai Gwenan gan ddangos drwy’r bocs clir lle’r eisteddai Boris, ei gynffon i lawr, yn y pys sych. “Mae o’n ei hoffi!”

“Ydi siŵr iawn,” meddai Owain.

# Pennod 3



Tawodd y synau o gawell a maes chwarae Boris yn ystod amser cinio. Efallai fod Boris wedi blino, meddyliodd Owain. Efallai ei fod yn gorffwyso.

Ar ôl cinio aeth Taid a Nain i gael paned o de. Aeth Owain i chwilio am Boris.

Doedd dim golwg o Boris yn y cawell. Gwrandawodd Owain wrth bob rhan o'r maes chwarae ond doedd dim smic o sŵn bochdew.

"Gwenan," meddai Owain. "Fedra i ddim cael hyd i Boris."



"Mae'n rhaid ei fod yna yn rhywle," meddai Gwenan. "Betia i ei fod yn cysgu yn un o'r tiwbiau."

"Bydd raid inni edrych" meddai Owain. "Brysia, cyn i Nain ddod i mewn."

Yn ofalus tynnodd un tiwb allan o'r maes chwarae ac edrychodd drwyddo.

"Wela i ddim byd," meddai.

"Chwytha drwyddo," meddai Gwenan.

Chwythodd Owain. Chwythodd cyn galeted fyth ag y medrai, ond ddaeth 'run bochdew bach blewog allan drwy waelod y tiwb.



Tynnodd ragor o ddarnau o'r maes chwarae oddi wrth ei gilydd.

"Wedi iti wneud imi eu glynu i gyd at ei gilydd," meddai Gwenan.

"Mae'n rhaid inni gael hyd iddo," meddai Owain.

Gweithiodd o'n gyflymach ac yn gyflymach, yn tynnu'r tiwbiau a'r bocsys i gyd oddi wrth ei gilydd nes roedd y maes chwarae yn ddim ond pentwr o sbwriel ar y llawr. Yna cododd Owain un o'r bocsys. Ynddo roedd twll gymaint â darn hanner can ceiniog wedi ei gnoi drwy un gornel.

"Mae o wedi dianc!" meddai Owain.



"O na!" meddai Gwenan. "Beth am Nain? Os gwelith hi Boris fe ddychrynith am ei bywyd!"

"Ac os gwêl Cochyn Boris, bydd Cochyn wedi ei ddychryn *yntau* am ei fywyd!" meddai Owain. "Mae'n rhaid inni gael hyd iddo'r munud yma!"

Cododd Owain ar ei draed.

"Edrych!" meddai. "Ôl tisian bochdew!"




Roedd y pot pupur ar ben cwpwrdd Nain wedi cael ei droi drosodd a'i dywallt. Roedd olion traed bychain bochdew ar draws y powdwr pupur mân brown. Roedd dau driongl bychan wedi cael eu tisian o drwyn bychan bochdew.

"Bendith arno!" meddai Owain.

Roedd ganddyn nhw rywbeth i ddangos ble bu o, beth bynnag.

"Ffordd acw'r aeth o." Dangosodd Gwenan y cyfeiriad lle roedd yr olion traed yn mynd.





“O, edrych!”

Roedd mwy o olion traed, rhai cochion. Roedd Boris wedi mynd ar draws y platiau cinio budron. Roedd wedi rhoi un bawen mewn mymryn o sôs coch. Rŵan roedd olion traed cochion yn estyn draw at ymyl y cwpwrdd a stremp goch i lawr y drws.

“Mae o ar y llawr yn rhywle,” meddai Owain.

# Pennod 4




Aeth Owain a Gwenan i lawr ar eu penglinniau. Plygodd y ddau eu pennau a chwilota o dan y byrddau a'r cadeiriau a'r cypyrddau.

"O na, gwylia!" sibrydodd Owain. Roedd o wedi gweld sliperi blewog Nain yn dod drwy'r drws.

"Be ydach chi'ch dau yn ei wneud i lawr yn fan'na?" gofynnodd Nain.

Neidiodd Gwenan i fyny. “Rydan ni wedi colli - ”


“Botwm!” meddai Owain. “Rydan ni’n meddwl ei fod o ar lawr.”



Yna gwelodd Owain rywbeth yn dod drwy’r drws. Pedair pawen sunsur ag ewinedd. Cochyn oedd yno!

Cerddodd Cochyn i mewn i'r gegin a stopio. Cododd ei drwyn i'r awyr a snwffiodd. Yna, â'i gynffon i fyny, cerddodd Cochyn yn araf ar draws y llawr at y fan lle roedd pibell twymwr yn mynd i'r llawr.

Roedd y twll roedd y bibell yn mynd drwyddo yn fwy na'r bibell. Gwelai Owain fod yno ddigon o le i fochdew bychan wasgu drwyddo.



Edrychodd Owain ar Gwenan. Edrychodd Gwenan ar Owain.

"Ym, golchwn ni'r llestri, Nain," meddai Gwenan. "Ewch chi i eistedd i lawr!"



"Ydach chi'n siŵr?" gofynnodd Nain, ond gwthiodd Owain hi drwy ddrws y gegin  a chydiodd Gwenan yn Cochyn a gwthiodd yntau allan hefyd. Caeodd Owain y drws.

Safodd y ddau a syllu ar y twll lle roedd Boris wedi mynd. Yn sydyn ymddangosodd trwyn bychan.


"Dyna fo!" meddai Owain. "Estyn ei fwyd o, Gwenan! Tyrd yma, Boris!"


Symudodd y trwyn ddim.

"Cynnig hedyn blodyn haul iddo fo," meddai Owain.

"Paid â bosio!" meddai Gwenan. Ond daliodd hedyn blodyn haul rhwng ei bys a'i bawd.

Daeth y trwyn fymryn yn nes.






"Hogyn da!" meddai Gwenan a gadael i Boris gymryd yr hedyn.

"Fedra i ddim cael gafael arno," meddai Owain. "Mae ei drwyn o'n rhy fach imi fedru gafael ynddo."

"Iawn," meddai Gwenan. "Tamaid bach iddo fo gael deall oedd hwnna."

Cynigiodd hedyn arall i Boris.



Y tro hwn daeth ei drwyn a'i lygaid allan o'r twll cyn iddi adael iddo'i fwyta.

"Mae'n rhaid iddo ddod allan fwy na hynna," meddai Owain.

"Gwn i," meddai Gwenan.


Y tro nesaf daeth y trwyn, y llygaid a'r clustiau allan.

"Mae o'n gwella!" meddai Gwenan.

"Brysia!" meddai Owain gan edrych ar y drws.

Daliodd Gwenan hedyn arall allan. Allan â'r trwyn, llygaid, a'r clustiau. Tynnodd Gwenan yr hedyn yn nes ati.

"Tyrd allan yn iawn!" meddai hi ac fe wnaeth Boris drio dod allan i gyd ond -



"O na!" meddai Owain. "Dydi o ddim yn ffitio. Rydan ni wedi llenwi ei fochau efo hadau a rŵan fedr o ddim dod drwy'r twll. Mae o'n sownd!"

"O diar," meddai Gwenan. "Beth wnawn ni?"

"Bydd raid inni ddweud wrth Taid," meddai Owain.

# Pennod 5



Aeth Owain i nôl Taid i'r gegin.

"Beth sy'n bod?" holodd Taid. "Beth ydi'r gyfrinach fawr?"

"Mae Boris wedi dianc," sibrydodd Gwenan, "a dydan ni ddim eisio i Nain wybod rhag iddi ddychryn!"

"Wedi dianc?" meddai Taid â'i lais yn gwichian yn rhyfedd. "Ble? Ble mae o?"

"O dan y llawr," meddai Gwenan.

"Nac ydi!" meddai Owain. "Mae o wedi dod allan. Edrych!"



Dyna lle roedd Boris yn eistedd ar lawr y gegin. Eiliad yn ddiweddarach roedd Taid yn sefyll ar ben cadair.

"Taid?" meddai Owain. "Be rydych chi'n wneud?"



“Ewch ag o oddi yma!” sibrydodd Taid. “Ewch â’r peth llygotlyd yna o fan’ma!”

Cododd Owain Boris.

“Peidiwch â bod yn ofnus,” meddai Owain. “Dim ond bychan ydi o.”


“Mae Taid yn ofnus,” meddai Gwenan yn glên, “ond mae o’n ddewr hefyd. Byddwch chi’n gwneud pethau *er* bod arnoch chi ofn, oni fyddwch, Taid?”

“Wnaiff o gydio yn Boris, felly?” gofynnodd Owain.

Nodiodd Taid yn araf, yna dringodd i lawr oddi ar y gadair. Daliodd ei ddwylo mawr cnotiog allan. Yn dyner iawn, gollyngodd Owain Boris bychan brown iddyn nhw.



Am funud roedd pawb yn berffaith lonydd. Yna chwarddodd Taid chwerthiniad bychan. Rhoddodd fwythau i ben meddal cynnes Boris a'i gefn ag un bys mawr.




"Helo 'ngwas bach i," meddai Taid.

Syllodd Boris ar Taid â'i lygaid cyrens duon disglair.

Chwarddodd Taid eto.

"Feddyliais i erioed y byddwn i'n dweud hyn, ond rwyt ti'n iawn, Owain. Mae'r peth bach llygotlyd yma'n ddigon dymunol!"



Daeth Nain at y drws.

"Wel wir!" meddai hi. "Ar ôl yr holl flynyddoedd yma!"

"Oes arnoch chi ei ofn o, Nain?" gofynnodd Gwenan.



“Nac oes,” chwarddodd Nain. “Rydw i’n hoffi llygod a bochdewion erioed. Byddwn i’n arfer cadw llygod mawr pan oeddwn i’n eneth. Eich Taid sy’n eu hofni nhw. Byth ers pan oedd o’n blentyn.”

“Pam?” gofynnodd Owain.

“Wel,” meddai Taid, â Boris fel petai mewn crud rhwng ei ddwylo. “Ers pan oeddwn i tua’r un oed â thi, Owain.”

"Roeddwn i a Dei fy ffrind yn cysgu yn sgubor ei dad o. Rhoddon ni blancedi dros y gwair newydd. Roedd yr arogl yn fendigedig. Dyna i chi wely ardderchog oedd o. Ond yng nghanol y nos dywyll, dywyll, deffrais. Rhedodd llygoden ar draws fy wyneb! Meddyliwch am y peth!



"Codais ar f'eistedd wedi dychryn. Welwn i ddim byd. Am weddill y noson eisteddais yn gwrando ar y crafu a'r gwichian o'm cwmpas. Mae'n gas gen i lygod byth ers hynny."

"Tan rŵan," meddai Owain.

Yn sydyn rhedodd Boris i fyny braich Taid. Aeth Taid yn stiff i gyd. Gwelwodd ei wyneb. Yna cosodd Boris Taid o dan ei ên a chwarddodd Taid.

"Tan rŵan, am wn i," meddai.



# *Am yr awdur*



Pan oeddwn i'n blentyn roeddwn i'n dyheu am gael llawer o anifeiliaid. Unwaith, pan oeddwn i'n gwarchod bochdew'r ysgol, dihangodd drwy dwll yn y wal a llenwi'i fochau mor llawn o fwyd fel na fedrai o ddim mynd yn ôl. Cofio hynny wnaeth imi ysgrifennu'r stori yma am Boris. Erbyn hyn rydw i'n byw gyda fy ngŵr a'm tair merch. Maen nhw i gyd angen gofal a bwyd a dillad felly dydw i ddim yn dyheu am anifeiliaid gymaint ag yr oeddwn i unwaith. Ond mae gynnon ni gi mawr blewog a chath fach ddireidus.

**Llyfrau Brig y Goeden yng Ngham 12:**

| | |
|---|---|
| **Pecyn A** | *Sami Sgrap* gan Carolyn Bear |
| | *Robin Woods a'i Ddynion Llon* gan Michaela Morgan |
| | *Boris y Bochdew* gan Pippa Goodhart |
| | *Esgidiau Glas* gan Angela Bull |
| | *Y Datgelwr Celwyddau* gan Susan Gates |
| | *Trip Traed Moch* gan Michaela Morgan |
| **Pecyn B** | *Yr Anrheg Ben-blwydd Ofnadwy* gan Angela Bull |
| | *Cranwen Grachaidd* gan Pippa Goodhart |
| | *Pasia'r Bêl, Tad-cu* gan Debbie White |
| | *Tipyn o Boendod* gan Michaela Morgan |
| | *Shelley Holmes Ditectif Di-ail* gan Michaela Morgan |
| | *Dyma Drwbwl* gan Tessa Krailing |
| **Pecyn C** | *Ffasiwn Steil!* gan Michaela Morgan |
| | *Lwc Luc* gan Paul Shipton |
| | *Ffoniwch 999!* gan Sylvia Moody |

# Boris y Bochdew

Mae Siôn a Gwenan eisiau gwneud cartref newydd i Boris y bochdew. Ond mae gan Boris gynlluniau eraill.



Brig y Goed

Coeden
Ddarllen
Rhydyche

Cam 12

ISBN 0-86174-481-0

DRAKE

ISBN 0-86174-481-0

9 780861 744817